Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mr Jack Straw
Prif Weithredwr
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Oystermouth Road
Abertawe
SA1 5LD

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Straw

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Mae'n glir o'ch ymateb eich bod wedi meddwl gryn dipyn am hyn a'ch bod wedi canolbwyntio'n gryf ar y canlyniadau rwy'n ceisio eu sicrhau ar ran pobl hŷn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bae'r Gorllewin (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr)

Cam Gofynnol 1.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.3 Dylai cymorth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi'r arferion gorau wrth ddarparu gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac o ran urddas.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig datganiad manwl ynglŷn â chymorth ymataliaeth mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd, ar gyfer preswylwyr cartrefi preswyl a chartrefi gofal nyrsio fel ei gilydd. Mae'r ymateb yn dangos ymwybyddiaeth o wendidau yn y ddarpariaeth bresennol, er enghraifft, nad yw'r dewis cyfyngedig o gynhyrchion ymataliaeth o bosibl yn briodol i breswylwyr cartrefi nyrsio.

Serch hynny, gellid cynnig rhagor o fanylion am fynediad at wasanaethau cymorth ymataliaeth a phrofiadau pobl hŷn wrth iddynt eu defnyddio mewn gwirionedd. Er gwaethaf hyn, mae ymrwymiad i adolygu'r ddarpariaeth ac i fwrw ymlaen â hyn o dan y Grŵp Llywio Ymataliaeth.

Nid oes amserlen glir ar gyfer cwblhau'r adolygiad hwn, ac mae ymrwymiad i roi unrhyw welliannau ar waith o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn amwys. Er hynny, mae cyfeiriad yn y llythyr cefndir yn cydnabod bod angen datblygu achos busnes er mwyn cefnogi rhagor o fuddsoddi mewn gofal ymataliaeth.

Cam Gofynnol 1.6

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol: • pan fydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth gorfforol, emosiynol,

ariannol neu rywiol neu pan fydd perygl o hynny.
- pan fydd cartref gofal yn cau neu bobl hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fydd angen cymorth ar bobl hŷn i'w helpu i adael yr ysbyty.

Os bydd gallu pobl yn mynd a dod neu os bydd hi'n anodd iddynt gyfathrebu, dylid cynnig eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, rhaid i breswylwyr allu cael gafael ar eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnwys asesiad manwl o'r ddarpariaeth eiriolaeth sydd yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r mannau hynny lle nad yw'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn ddigon cadarn – er enghraifft y broses atgyfeirio, ac amrywiadau rhanbarthol o ran y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae'r ymateb yn dangos ymwybyddiaeth o'r mannau hynny lle bydd angen rhagor o waith i bennu'r cyllida r gyfer eiriolaeth, nad yw eiriolaeth ar gael ar hyn o bryd yn rhai o'r amgylchiadau a nodir yn y Cam Gofynnol megis Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a symud o'r ysbyty. Mae'r ymateb hefyd yn cydnabod y bydd y galw am eiriolaeth ar ran pobl heb alluedd yn cynyddu.

Mae ymrwymiad i adolygu model eiriolaeth y rhanbarth ar hyn o bryd, i asesu'r canlyniadau i unigolion ac effaith eiriolaeth er mwyn mesur ei werth, ac ystyrir hyn eto os bydd angen gwasanaethau i ddiwallu'r galw. Mae cyfeiriad yn y llythyr cefndir sy'n dweud bod angen datblygu achos busnes er mwyn cefnogi rhagor o fuddsoddi mewn gwasanaethau eiriolaeth.

Mae'r ymateb hefyd yn cyfeirio at sefyllfaoedd pan ddarperir eiriolaeth heb gyfarwyddyd, ac mae'n dweud y cynhwysir eiriolaeth mewn fframwaith ansawdd rhanbarthol newydd fydd yn tywys y gwaith comisiynu o fis Mawrth 2015.

Gellid cryfhau'r ymateb drwy gynnwys amserlenni manwl ac enwi unigolion atebol.

Cam Gofynnol 2.2

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

2.2 Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol a, lle bydd hynny'n briodol, ar ofal gan bobl o sawl gwahanol ddisgyblaeth, a hwnnw wedi'i gynllunio i'w helpu i wella ar ôl cyfnod o afiechyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnwys llawer o fanylion a chamau gweithredu gyda golwg ar dimau amlddisgyblaeth a darpariaeth gofal iechyd meddwl. Serch hynny, mae'n ymddangos bod y Cam Gofynnol hwn wedi'i gamddeall. Mae'r Cam Gofynnol hwn yn gofyn am wasanaethau arbenigol a gofal amlddisgyblaeth ym maes adsefydlu ar ôl cyfnod o afiechyd ac nid yng nghyswllt gofal iechyd meddwl.

Cam Gofynnol 3.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

3.2 Bydd holl weithwyr cartrefi gofal yn cael hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu a bydd pob aelod o'r staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn dilyn rhagor o hyfforddiant dementia'n barhaus i ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, a bydd hyn yn elfen benodol o'u goruchwyliaeth ac asesu eu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig llawer o fanylion ynglŷn â hyfforddiant dementia: y nifer, y math a faint sy'n manteisio arno.

Mae'r ymateb, a gynigir fel rhan o Grŵp Cydweithredol Bae'r Gorllewin, yn cydnabod bod amrywiaethau rhanbarthol; serch hynny, darperir cymorth i ddatblygu sgiliau a chymhwysedd gweithlu'r sector annibynnol drwy gyfrwng ei Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnig cwrs hyfforddi gofal dementia i bob darparwr dan gontract ac **mae modd** i weithwyr cartrefi gofal ei fynychu yn rhad ac am ddim.

Er bod hyn yn gadarnhaol, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod a yw'r hyfforddiant hwn yn orfodol i staff sy'n gweithio gyda darparwyr dan gontract.

Mae'r ymateb yn dangos bod disgwyl i gartrefi gofal ddarparu Hyfforddiant Dementia priodol i'r holl staff gofal. Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod a yw hyn yn cael ei fonitro.

Cam Gofynnol 3.3

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

3.3 Dylid mynd ati'n benodol i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, a helpu preswylwyr i gynnal eu perthynas â chyfeillion. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gael cymorth sy'n seiliedig ar eu crefydd a chymorth gan gymunedau diwylliannol penodol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dweud bod enghreifftiau ar draws y rhanbarth yn dangos bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i annog gwirfoddoli a chyfeillio mewn cartrefi gofal. Cynigir rhai enghreifftiau yma o fentrau penodol ar waith.

Mae'r ymateb hefyd yn dweud sut y mae Fframwaith Ansawdd Bae'r Gorllewin yn cynnwys nifer o safonau a thargedau gan gynnwys annog gwirfoddoli a chyfeillio mewn cartrefi gofal, sy'n galluogi'r preswylwyr i ymgysylltu â'u cymuned leol a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, hyrwyddo a chynnal cysylltiadau gyda ffrindiau a theulu, meithrin cysylltiadau newydd, ac ymateb i anghenion diwylliannol a chrefyddol.

Cam Gofynnol 3.4

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.4 Datblygu cefnogaeth mewngymorth amlddisgyblaeth ar gyfer iechyd

a lles meddyliol pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau bod y cymorth hwnnw ar gael, gan gynnwys:

- Asesu iechyd a lles meddyliol pobl hŷn fel rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a chymorth a chynllunio'u gofal parhaus.
- Cyngor a chymorth i staff gofal ynglŷn â sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn sydd ag anghenion lles ac iechyd meddyliol, gan gynnwys dementia, a pha bryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Bydd yr holl breswylwyr sy'n cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu i weld a oes modd eu diddyfnu a bydd adolygiadau'n cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig gwybodaeth drylwyr am y ddarpariaeth asesu, atgyfeirio a monitro meddyginiaeth iechyd meddwl ar hyn o bryd gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth sydd ar draws y rhanbarth.

Mae parodrwydd i fabwysiadu modiwl hyfforddiant presennol i adlewyrchu'r Cam Gofynnol yn well, ac i adlewyrchu lles yn well. Mae parodrwydd hefyd i wella cysondeb drwy'r rhanbarth cyfan ar gyfer llwybrau atgyfeirio, gyda'r bwriad o roi'r arferion gorau ar waith ar draws y rhanbarth.

Mae cyfeiriad yn y llythyr cefndir yn cydnabod bod angen datblygu achos busnes er mwyn cefnogi rhagor o fuddsoddi mewn cysylltiadau seiciatrig a rheoli meddyginiaethau.

Gallai'r bwriad hwn fod wedi'i gryfhau drwy gynnwys unigolion atebol, ac amserlenni penodol ar gyfer dechrau a chwblhau'r camau, er enghraifft gweithredu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac ystyried cynnwys mynediad at wasanaethau arbenigol mewn contractau.

Cam Gofynnol 3.5

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal, a'r rheini wedi'u

meincnodi ar sail canllawiau NICE a Thargedau Deallus Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig asesiad cywir o'r gallu ar hyn o bryd i gydymffurfio â'r Cam Gofynnol, ac mae'n dangos ei fod yn deall nad yw'n gallu cydymffurfio ar hyn o bryd heb gael dulliau newydd o gasglu data.

Mae cyfeiriad yn y llythyr cefndir yn cydnabod bod angen datblygu achos busnes er mwyn cefnogi rhagor o fuddsoddi mewn cysylltiadau seiciatrig a rheoli meddyginiaethau.

Mae ymrwymiad i arfarnu'r fethodoleg orau i symud ymlaen gyda'r Cam Gofynnol, ond nid oes ymrwymiad clir i symud ymlaen ar ôl yr arfarnu hwnnw. Yn hytrach, awgrymir y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar sail genedlaethol. At hynny, nid oes amserlenni wedi'u diffinio'n glir nac unigolyn atebol.

Cam Gofynnol 4.2

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

4.2 Bydd cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, gan gynnwys mynediad agored
- Amserau aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref
- Mynediad at wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig gwybodaeth am y sefyllfa bresennol yn y meysydd y cyfeirir atynt yn y Cam Gofynnol. Cydnabyddir y bydd datblygu'r Cam Gofynnol hwn yn dibynnu ar y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Datganiad o Hawliau, ond

ymrwymir hefyd i geisio cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol ar ôl eu cyhoeddi.

Cam Gofynnol 4.3

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

4.3 Rhoddir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant lle bo hynny'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ymwybyddiaeth o'r sefyllfa bresennol o ran darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i staff cartrefi gofal. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth mai dim ond yn rhannol y cydymffurfir â'r Cam Gofynnol ar hyn o bryd.

Mae'r ymateb yn cynnwys asesiad gonest o safbwynt darparwyr cartrefi gofal y gall yr hyfforddiant a gynigir i staff gan y Bwrdd Iechyd fod yn un munud olaf, ac yr hoffent gael rhan ym mhroses cynllunio'r hyfforddiant hwn.

Mae'r ymateb yn dangos parodrwydd i ystyried ymestyn hyfforddiant Uwch-ymarferydd Nyrsio i staff cartrefi gofal ar gyfer pobl eiddil oedrannus. Serch hynny, nid yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn yn glir, na sut y'i rhoddir ar waith. At hynny, nid oes unigolyn atebol yn cael ei enwi i gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

Cam Gofynnol 4.4

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

4.4 Pan fydd pobl hŷn yn cyrraedd cartref gofal, bydd gweithiwr proffesiynol clinigol cymwysedig yn adolygu eu meddyginiaethau, a bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cydnabod nad yw adolygiadau o feddyginiaethau'n cael eu cwblhau yn unol â'r Cam Gofynnol ar hyn o bryd. Serch hynny, mae ymrwymiad i adolygu manyleb gwasanaeth ychwanegol Meddygon Teulu ac i annog ei ddefnyddio. Ni chynigir manylion am sut yn union y caiff hyn ei wneud nac erbyn pryd.

Mae gwybodaeth a gynigir gan ddarparwyr cartrefi gofal yn dweud bod diffyg eglurder ynglŷn â pha feddygfeydd Meddygon Teulu sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol i gartrefi gofal ac maent yn galw am ragor o wybodaeth. Nodir pryderon hefyd ynglŷn â phwy sy'n sicrhau ansawdd y gwasanaethau ychwanegol, ac ni chynigir gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd ynglŷn â sut y byddant yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Cam Gofynnol 5.6

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu risgiau parhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a roddir i breswylwyr a/neu'r posibilrwydd o darfu ar eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, i ddarparu cefnogaeth ddwys a thrawsnewidiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, yn ogystal ag i atal a lliniaru risgiau ym maes diogelu yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwella'n barhaus.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ymrwymiad clir gan y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol i gyfrannu at ddatblygu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Cam Gofynnol 6.2

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig disgrifiad manwl o'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i wrando ar bobl hŷn mewn modd anffurfiol, y tu allan i'r drefn gwyno. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cynnwys datblygiad cadarnhaol sef holiadur sicrwydd ansawdd i breswylwyr er mwyn gwrando ar eu profiadau beunyddiol. Mae'r ymateb hefyd yn onest gan nodi mai ychydig o lwyddiant a gafwyd hyd yma. Serch hynny, gellid bod wedi cynnig mwy o wybodaeth am yr hyn mae'r cyrff statudol am ei wneud i wella effaith yr holiadur.

Mae'r ymateb yn cynnwys cyfeiriad at ddefnyddio'r 'fframwaith synhwyrau', ac ymrwymiad cadarnhaol i weithredu 'Fframwaith Sicrwydd Ansawdd' sy'n canolbwyntio ar ansawdd bywyd, a chysylltiadau â phobl eraill. Serch hynny, nid oes rhagor o fanylion am ba bryd y bydd hyn yn digwydd.

Roedd yr ymateb yn cynnwys ymrwymiad i archwilio'r dewisiadau i wella adborth a monitro safonau ansawdd. Serch hynny, nid oes ymrwymiad i fwrw ymlaen i weithredu ar ôl yr archwilio hwn.

Cam Gofynnol 6.7

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.7 Bydd Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a rhai'r Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- yr Eiriolaeth Annibynnol sydd ar gael mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a/neu nam ar y synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ledled yr Awdurdod Lleol
- barn pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg am ansawdd bywyd ac ansawdd y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylid cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion adrodd yn rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu Datganiadau Ansawdd Blynyddol; serch hynny, gellid cynnig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei ddatblygu. Mae sôn hefyd am ddatblygu fformat cyffredin; byddai ychydig o fanylion yn ddefnyddiol yma, ynghyd ag amserlen i'w weithredu.

Cam Gofynnol 6.8

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.8 Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn ffordd amhriodol

- sicrhau bod cymorth ar gyfer iechyd a lles meddyliol ar gael
- nifer y cwympiadau
- mynediad at y gwasanaeth atal cwympiadau
- mynediad at wasanaethau ailalluogi
- cefnogaeth i gynnal y golwg a'r clyw.

  Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys yn rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ei fod yn cytuno y dylid sefydlu system genedlaethol i gasglu gwybodaeth am ansawdd bywyd preswylwyr cartrefi gofal. Serch hynny, mae'r ymateb yn gofyn am drafod y Cam Gofynnol hwn eto er mwyn sicrhau ei fod yn gwella gofal ac ansawdd bywyd mewn gwirionedd.

Nid oes ymrwymiad i gyhoeddi'r wybodaeth am y meysydd a restrir yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol, a dywedir nad yw'r data'n cael eu casglu yn y fformat angenrheidiol ar hyn o bryd. Serch hynny, cynigir trafod y Gofyniad eto.

Cam Gofynnol 7.3

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio gyda'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu'n rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, gan gynnwys darparu cefnogaeth lawn o ran datblygiad proffesiynol nyrsys a chefnogaeth gan gymheiriaid i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.
.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnwys arfarniad cywir o sefyllfa bresennol y sector cartrefi gofal fel rhan o'r llwybr at yrfa

nyrsio. Mae'r ymateb yn dweud nad oes trefniant ffurfiol ar gyfer datblygu gyrfaoedd nyrsys mewn cartrefi preswyl.

Mae'r ymateb yn cynnwys datganiad bod hyfforddiant wedi'i gynnig i nyrsys yn y sector ond dim ond pan fydd lleoedd dros ben ar gyrsiau sydd eisoes yn cael eu cynnal ar gyfer gweithwyr y Bwrdd Iechyd. Ni chynigir hyfforddiant na datblygu gyrfa rhagweithiol i nyrsys mewn cartrefi gofal preswyl.

Mae'r ymateb yn dweud bod y GIG bellach yn ystyried anghenion cartrefi nyrsio wrth gynllunio'r gweithlu. Serch hynny, nid oes rhagor o wybodaeth am yr effaith y mae hyn wedi'i chael hyn ar niferoedd y nyrsys yn y gweithlu.

Mae'r wybodaeth a gynigir gan ddarparwyr cartrefi gofal yn cydnabod pa mor anodd yw llenwi swyddi nyrsio gwag yn y sector, ac y byddai'n croesawu sefydlu llwybrau gyrfa wedi'u diffinio.

Mae ymrwymiad gan y cyrff statudol i barhau i gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chydweithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn cael eu targedu. Serch hynny, yn sgil y wybodaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod yn cynnig hyfforddiant ar hyn o bryd pan fydd lleoedd dros ben ar gael, yn hytrach na chynnig rhaglen ddatblygu ragweithiol, mae'n anodd teimlo'n ffyddiog mai canlyniad hyn fydd gwneud y sector yn fwy deniadol i staff nyrsio.

Cafwyd datganiad yn yr ymateb ynghylch nyrsio yn y sector cartrefi gofal bod angen dull cenedlaethol o weithredu, ond ni chynigir gwybodaeth am sut y gwneir hyn.

Atodiad 1:

Bae'r Gorllewin (Bwrdd Iechyd PABM, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr), cwestiynau a godwyd

Cam Gofynnol 1.2

Cwestiwn: "Angen eglurhad ynghylch geiriad cywir yn unol â'r Datganiad Pobl Hŷn."

Tybiwyd bod y cwestiwn hwn yn dod gan ddarparwyr cartrefi gofal, a bod a wnelo'r cwestiwn ag eglurhad ynghylch y geiriad cywir yn unol â'r Datganiad Pobl Hŷn, i'w gynnwys mewn 'Pecyn Croeso'.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl y bydd datblygu Cam Gofynnol 1.2 yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â darparwyr cartrefi gofal a chyrff perthnasol eraill. Mae'r Cam Gofynnol yn datgan bod angen 'Pecyn Croeso' safonol, ac y dylai cyfeiriadau at Ddatganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru fod ar fformat safonol er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r wlad. Barn y Comisiynydd yw y datblygir y geiriad hwn ochr yn ochr â datblygu gweddill y Pecyn Croeso.

Cam Gofynnol 4.4

Cwestiwn: "Mae gwasanaethau lleol ychwanegol yn wasanaeth da ond sut ydyn ni'n gwybod pa feddygfeydd sy'n cynnig y gwasanaeth hwn. Pwy sy'n monitro i sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu o safon uchel? A allwn ni gynghori ein preswylwyr er mwyn bod ganddynt ddewis o Feddygon Teulu sy'n cynnig y gwasanaeth hwn?"

Tybiwyd bod y cwestiwn hwn yn dod gan ddarparwyr cartrefi gofal a bod a wnelo'r cwestiwn â meddygfeydd Meddygon Teulu sy'n cynnig y gwasanaethau lleol ychwanegol ac ag ansawdd y gwasanaeth hwnnw.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl y bydd datblygiad Cam Gofynnol 4.4 yn cael ei arwain gan y Byrddau Iechyd. Gall darparwyr cartrefi gofal gysylltu â'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol os dymunant er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth, ac ansawdd y gwasanaethau lleol ychwanegol yn eu hardal.

Cam Gofynnol 5.5

Cwestiwn:

"Efallai na fydd un Eiriolwr Dementia mewn cartref yn ddigon i newid diwylliant y cartref. Pa hyfforddiant sydd ei angen ac a yw maint y cartref yn ystyriaeth"?

Tybiwyd bod y cwestiwn hwn yn dod gan ddarparwyr cartrefi gofal a bod a wnelo'r cwestiwn ag Eiriolwyr Dementia.

Mae eiriolwr dementia yn gyfrwng i hyrwyddo arferion da o ran ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal ymhlith perchnogion cartrefi gofal.

Casgliad adolygiad y Comisiynydd oedd - pan fyddai unigolion neu dimau'n cael cymorth i ddeall hawliau a phrofiadau byw pobl â dementia, i ymgysylltu â hwy a'u hyrwyddo, bod y preswylwyr yn hapusach, bod llai o ymddygiad 'heriol' a bod y staff yn dweud eu bod yn cael mwy o foddhad o'u gwaith. Yn bwysicaf oll, gwelwyd bod y cartrefi hyn yn sicrhau canlyniadau gwych i'r holl breswylwyr.

Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i un dull penodol o roi rhaglen neu hyrwyddwr ar gyfer dementia ar waith mewn cartrefi gofal ond bydd am weld pa gamau y byddwch chi wedi'u cymryd, neu am eu cymryd, i sicrhau bod ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn â dementia ac eiddilwch emosiynol yn cael eu darparu a'u gwella'n barhaus. Gallai hyn fod gyda chymorth rhaglen newid allanol neu fewnol neu drwy gefnogi unigolyn brwdfrydig penodol cryf ei gymhelliad, y byddwch yn ei rymuso i sbarduno newid sefydliadol, i fod yn esiampl o arfer da ac i herio canlyniadau gofal gwael.

Cam Gofynnol 5.6

Cwestiwn:

"I gael eglurdeb ynghylch rôl y Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol a sut y disgwylir i bob asiantaeth ymroi i ddatblygu a gweithredu'r gwasanaeth hwn."

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â'r Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai Llywodraeth Cymru fydd yn arwain wrth ddatblygu'r Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a darparwyr cartrefi gofal.

Er mwyn symud ymlaen â'r Cam Gofynnol hwn, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ddydd Llun 30 Mawrth i gael gwybodaeth ac adborth gan gynrychiolwyr sectorau am sut y gallai'r holl randdeiliaid drefnu a defnyddio Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol yn y ffordd orau. Cynrychiolwyd Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y cyfarfod gan Dave Street.